Cyngor Bwrdeistref Sirol
Blaenau Gwent
County Borough Council

ADRODDIAD BLYNYDDOL

CYFARWYDDWR GWASANAETHAU CYMDEITHASOL 2025/2026

CYNNWYS

Crynodeb y Cyfarwyddwr: Trosolwg o'r flwyddyn ddiwethaf 1

Cyd-destun: Arweinyddiaeth, y Gweithlu, Cyllid a Mwy na Geiriau 5

ASESU PERFFORMIAD YN ÔL THEMA

Pobl: Llais a Rheolaeth 10

Atal 17

Partneriaethau 25

Llesiant 31

Meysydd i'w Gwella 37

Rhagor o wybodaeth 40

CIPOLWG AR 2025/26



4822

O ATGYFEIRIADAU I WASANAETHAU CYMDEITHASOL I OEDOLION



9373

O ATGYFEIRIADAU I WASANAETHAU CYMDEITHASOL I BLANT



97

O BLANT AR Y GOFRESTR AMDDIFFYN PLANT



134

O OFALWYR IFANC YN CAEL CYMORTH



226

O GLEIENTIAID MEWN OED MEWN GOFAL CARTREFI PRESWYL A CHARTREFI NYRSIO



202

O BLANT SY'N DERBYN GOFAL



803

O GLEIENTIAID MEWN OED SY'N DERBYN TECHNOLEG GYNORTHWYOL ELECTRONIG



123

O BOBL SY'N GADAEL GOFAL WEDI'U CEFNOGI



181

O ASESIADAU IECHYD MEDDWL WEDI'U CWBLHAU

DATHLU LLWYDDIANNAU...

CYMORTH CYNHARACH I BLANT A THEULUOEDD

Mae ffocws parhaus ar atal ac ymyrryd yn gynnar yn ‘helpu’ plant a gofalwyr i gael cymorth cyn gynted â phosibl, gan leihau’r risg y bydd anghenion yn gwaethygu a gwella llesiant yn gyffredinol. Mae perfformiad cadarn ym maes diogelu, ymyriadau effeithiol i amddiffyn plant, a mynediad amserol at asesiadau yn galluogi unigolion a theuluoedd agored i niwed i gael y cymorth cywir ar yr amser cywir. Fwyfwy, mae plant a theuluoedd yn cael mynediad at gymorth yn gynharach. Mae hyn yn helpu i leihau’r angen am ymyriadau mwy dwys yn ddiweddarach. Mae hefyd yn cefnogi mwy o sefydlogrwydd i deuluoedd, canlyniadau gwell, a gwydnwch hirdymor. Mae gwasanaethau wedi parhau i gydweithio’n dda, gan addasu cymorth i ddiwallu anghenion lleol. Mae hyn yn dangos cynnydd da wrth ddarparu cymorth amserol ac ataliol sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn.


HYRWYDDO ANNIBYNIAETH A LLESIANT CYMUNEDOL

Mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud o ran hyrwyddo annibyniaeth, llesiant a chynhwysiant cymunedol trwy gynyddu’r defnydd o dechnoleg gynorthwyol, rhaglenni cymorth cymunedol, gwasanaethau seibiant, a mentrau byw’n annibynnol. Mae’r datblygiadau hyn wedi helpu pobl i aros yn ddiogel, yn egnïol ac yn gysylltiedig o fewn eu cymunedau wrth dderbyn cymorth sydd wedi’i deilwra i’w hanghenion unigol. Mae gwasanaethau wedi parhau i gryfhau gofal personol, gwella cynllunio gydag unigolion, a gwella trefniadau sicrhau ansawdd i sicrhau bod cymorth yn parhau i ganolbwyntio ar gyflawni canlyniadau cadarnhaol. Roedd gwelliannau cydweithredol dan arweiniad y gymuned, yn enwedig yn Nhŷ Augusta, yn dangos ymhellach werth gweithio mewn partneriaeth wrth wella ansawdd bywyd, cryfhau cysylltiadau lleol, a chreu gwasanaethau sy’n canolbwyntio fwyfwy ar y bobl sy’n eu defnyddio a’r canlyniadau sydd bwysicaf.

GWAITH PARTNERIAETH CRYF

Mae gwaith partneriaeth gwell wedi bod yn llwyddiant allweddol yn ystod y flwyddyn, gan alluogi gwasanaethau i ddarparu cymorth mwy integredig, cynaliadwy ac ymatebol. Roedd cydweithio â gwasanaethau iechyd, sefydliadau rhanbarthol, darparwyr, grwpiau cymunedol a thrigolion lleol yn cryfhau'r gwaith o gynllunio gwasanaethau, y trefniadau ar gyfer diogelu a'r darpariaeth arbenigol ar draws Blaenau Gwent. Gwnaeth cyflwyno cydlynwyr timau amlddisgyblaethol a'r Tîm Asesu Swyddogaethol ar ddiwedd y flwyddyn hon wella'r cydgysylltu rhwng asiantaethau ymhellach, gan gefnogi penderfyniadau mwy amserol, cyfathrebu gwell, a chanlyniadau gwell i bobl ag anghenion cymhleth. Bydd tystiolaeth o'u heffaith yn cael ei hadrodd yn 2026/27. Ar yr un pryd, parhaodd y cyngor i weithio'n agosach gyda chymunedau a phartneriaid i fynd i'r afael â materion yn gynharach ac yn agosach at ble mae pobl yn byw, gan helpu i adeiladu cymunedau cryfach, cefnogi atebion lleol, a chreu gwasanaethau mwy cydgysylltiedig sy'n gwella llesiant ac annibyniaeth.

"Dim ond eisiau tynnu sylw at ba mor wych oedd gweithiwr cymorth D gydag ef heddiw. Rwy'n credu mai dim ond mynd a D i'r gampfa oedd y bwriad gwreiddiol, ond, yn y diwedd, fe wnaeth ei gefnogi drwy'r broses gyfan o gysylltu a gwasanaethau iechyd meddwl, gan gynnwys adolygiad gyda mi fy hun. Roedd yn gefnogol iawn i D drwy'r amser. Cyfrannodd yn rhagorol yn ystod yr asesiad. Aeth gam ymhellach i sicrhau bod D yn ddiogel ac yn teimlo ei fod yn cael cefnogaeth drwy gydol y broses."


To
all the Wonderful Staff
at Court mytton
Just a little gift Thanking
you all so much for being
so wonderful to dad.
You love, care, consideration
and help has been second
to none.
dad loved you all, and
so did we
its been an absolute pleasure
meeting you all and we
are going to miss seeing
you. very much.
Thank you all from the
bottom of our hearts. love always
Debra & michelle xxx

CYDNABOD YR HERIAU

Mae lle i wella bob amser, ac mae heriau sylweddol yn wynebu gwasanaethau cymdeithasol yn genedlaethol ac ym Mlaenau Gwent

GALW CYNYDDOL A CHYMHLETHDOD ANGHENION

Mae'r galw am wasanaethau plant yn parhau i gynyddu, gyda mwy o bobl yn gofyn am gymorth ac yn cyflwyno ag anghenion sy'n fwyfwy cymhleth. Adlewyrchir hyn mewn lefelau uwch o weithgarwch diogelu, lefelau cyson o atgyfeiriadau, a nifer cynyddol o blant yn mynd i ofal. Er gwaethaf cynnydd trwy ymyrraeth gynharach a gwell cynllunio, mae gwasanaethau plant yn parhau o dan bwysau sylweddol, sy'n ei gwneud hi'n anodd lleihau nifer y plant sy'n mynd i ofal a chyflawni gwelliannau hirdymor.

CAPASITI'R GWEITHLU A CHYNALIADWYEDD GWASANAETHAU

Mae recriwtio a chadw staff arbenigol a gofalwyr maeth yn parhau i fod yn flaenoriaeth. Yn ogystal, mae gwasanaethau mabwysiadu wedi gwneud cynnydd o ran recriwtio ond nid oes ganddynt ddigon o fabwysiadwyr cymeradwy o hyd i ddiwallu'r galw, sy'n arwain at oedi wrth baru ac wrth sicrhau trefniadau parhaol i rai plant. Mae gennym ragor o waith i'w wneud i gryfhau ac egluro'r llwybrau i mewn i wasanaethau ailalluogi, adsefydlu a gofal canolradd ac wrth eu gadael. Bydd hyn yn ffocws i ni yn 2026/27.

DIGONOLRWYDD LLEOLIADAU A THRAWSNEWID SYSTEMAU

Mae prinder lleoliadau lleol addas yn golygu bod nifer o blant sy'n derbyn gofal yn parhau i gael eu lleoli y tu allan i Flaenau Gwent ac, mewn rhai achosion, y tu allan i Gymru. Mae dibyniaeth ar ddarparwyr allanol, pwysau ariannol, a'r angen am ddarpariaeth gofal lleol gynaliadwy yn parhau i fod yn faterion sy'n achosi pryder. Ochr yn ochr â hyn, mae angen gweithredu'n llwyddiannus y system sy'n disodli WCCIS, sef MOSAIC, erbyn gwanwyn 2026. Mae'r broses drawsnewid hon yn gofyn am gynllunio gofalus, mudo data'n effeithiol, a hyfforddiant cynhwysfawr i staff.

CYD-DESTUN: ARWEINYDDIAETH, Y GWEITHLU, CYLLID A MWY NA GEIRIAU

Arweinyddiaeth

Yn ystod 25/26, aeth y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol drwy newid strwythurol pan ffurfiodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent a Chyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen ffederasiwn.

Daeth Gwasanaethau Plant yn rhan o gyfarwyddiaeth newydd a unwyd ag addysg, sef Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd, a daeth Gwasanaethau Oedolion yn rhan o wasanaethau cymunedol, sef Oedolion a Chymunedau. Er mwyn cryfhau'r trefniant cydweithredol hwn, penodwyd Pennaeth Gwasanaethau Oedolion presennol Blaenau Gwent yn Gyd-bennaeth Gwasanaethau Oedolion, gan reoli gwasanaethau Blaenau Gwent a Torfaen. Roedd y strwythur newydd hwn yn ychwanegu at yr arweinyddiaeth gref a oedd eisoes yn bodoli.

Goruchwyliwyd yr arweinyddiaeth wleidyddol yn ystod 2025/26 gan yr Aelod Cabinet dros Blant, Pobl Ifanc a Teuluoedd, y Cynghorydd Sue Edmunds, a chan y Cynghorydd Helen Cunningham, a oedd yn Aelod Cabinet dros Oedolion a Chymunedau tan fis Rhagfyr 2025, cyn i'r Cynghorydd Jules Gardner gymryd dros y rôl. Mae'r gefnogaeth hon wedi darparu arweinyddiaeth a chymorth effeithiol i hyrwyddo agenda'r gwasanaethau cymdeithasol.

Mae gwaith y Gwasanaethau Plant ac Oedolion yn cael ei oruchwylio a'i herio gan y Pwyllgor Craffu Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd a'r Pwyllgor Craffu Oedolion a Chymunedau, gyda strategaethau ac adroddiadau perthnasol yn cael eu cyflwyno i'r cabinet a'r cyngor llawn pan fo angen. Yn ogystal, cynhelir sesiynau ffurfiol i herio perfformiad bob chwe mis gyda'r Bwrdd Gweithredol. Mae'r sesiynau hyn yn helpu i fonitro meysydd sy'n achosi pryder a materion sy'n codi, ac yn nodi'r cynnydd a wnaed wrth gefnogi'r amcanion a nodir yn y cynllun corfforaethol.

Y GWEITHLU

CEFNOGI'R GWEITHLU GOFAL CYMDEITHASOL YN EU ROLAU PROFFESIYNOL 2025/26

Mae gan Flaenau Gwent weithlu gofal cymdeithasol medrus ac ymroddedig sy'n canolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel. Mae ymgysylltu rheolaidd â staff yn helpu i lunio gwasanaethau, tra bod recriwtio a chadw staff yn parhau i fod yn flaenoriaethau allweddol er mwyn cynnal gweithlu sefydlog.



11.4%

TROSIANT STAFF

YR HYN RYDYM YN EI WNEUD

Mae Cyd-wasanaeth Datblygu'r Gweithlu yn darparu dysgu a datblygu ar draws Blaenau Gwent a Chaerffili, gan helpu staff a gofalwyr i feithrin sgiliau, bodloni gofynion proffesiynol, a symud ymlaen yn eu gyrfaoedd. Mae'r hyfforddiant yn canolbwyntio ar flaenoriaethau allweddol fel diogelu, niwroamrywiaeth, dementia, arweinyddiaeth, ac ymarfer sy'n seiliedig ar gryfderau, er mwyn cefnogi gweithlu medrus, gwydn a chynaliadwy.



694

NIFER Y GWEITHLU

SUT RYDYM YN GWNEUD HYN

Darperir y broses ddysgu drwy gyfuniad o ddysgu electronig a hyfforddiant rhithwir ac wyneb yn wyneb, gyda chymorth system rheoli dysgu electronig Thinqi. Rydym hefyd yn darparu cymorth i wella hyder digidol ac i sicrhau bod y dysgu yn hygyrch i'r holl staff.

YR HYN A GYFLAWNWYD GENNYM YN 2025/26:

- Cyflawnodd 232 o ddysgwyr gymwysterau neu ddyfarniadau datblygu proffesiynol
- Cefnogwyd 30 o fyfyrwyr gwaith cymdeithasol a noddwyd yn fewnol
- Cwblhaodd 11 aelod o staff y Dyfarniad Ymarferydd Gwasanaethau Cymdeithasol
- Cwblhaodd 34 o weithwyr cymdeithasol newydd gymhwyso eu rhaglen ddatblygu
- Darparwyd bron i 11,000 o gyfleoedd dysgu
- Cyflawnodd 66 o ddysgwyr gymwysterau Lefel 2 a 3 mewn lechyd a Gofal Cymdeithasol
- Cyflawnodd 12 o ddysgwyr gymwysterau Lefel 4 a 5 mewn lechyd a Gofal Cymdeithasol
- Mae dull y cyngor o "dyfu ein gweithlu ein hunain" yn parhau i gefnogi'r broses o recriwtio, datblygu a chadw gweithwyr cymdeithasol medrus.

Y GWEITHLU (parhad)

Mae sefydlogrwydd y gweithlu yn ystyriaeth allweddol ym maes gwasanaethau cymdeithasol, gyda rhai timau yn wynebu prinder staff. Fodd bynnag, cydnabyddir bod hon yn sefyllfa sy'n effeithio ar Gymru gyfan ac nad oes ateb syml iddi. Mae'r adran yn parhau i ystyried ffyrdd arloesol o reoli'r llwyth gwaith o fewn timau, yn ogystal â datblygu strategaethau recriwtio a chadw staff i fynd i'r afael ag unrhyw bwysau ar y gweithlu. Er gwaethaf hyn, mae staff a darparwyr gwasanaethau wedi parhau i sicrhau bod anghenion yn cael eu diwallu, bod risgiau'n cael eu rheoli, a bod pryderon diogelu yn cael sylw.

MATH O SWYDD	NIFER
SWYDDI GWAG	29
CYFNOD PENODOL	57
PARHAOL	482
PARHAOL – RHEOLIADAU CYFNOD PENODOL	18
DROS DRO	**2**
WRTH GEFN	135
SWM:	**723**

FFOCWS AR DDYFODOL Y GWEITHLU

- Cefnogi dysgwyr i symud ymlaen i 2026/27
- Cefnogi gofynion cofrestru a llwybrau gyrfa ym maes gofal cymdeithasol
- Cefnogi llwybrau gyrfa ym maes gwaith cymdeithasol
- Cefnogi meysydd blaenoriaeth, gan gynnwys deddfwriaeth, fframweithiau, canllawiau a chydymffurfedd
- Datblygu'r System Rheoli Dysgu

MWY NA GEIRIAU

Fel adran, rydym yn parhau i fonitro cydymffurfedd â'n cyfrifoldebau o dan 'Mwy na Geiriau' a'r Cynnig Rhagweithiol. Rydym yn parhau i sicrhau, pan fydd dinasyddion yn cysylltu â'n hadrannau Gwasanaethau Oedolion a Gwasanaethau Plant, eu bod yn cael y cyfle i gyfathrebu yn yr iaith o'u dewis.

Mae ein hadnoddau asesu o fewn System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS) yn gofyn yn benodol: "A oes angen i'r sgwrs / asesiad hwn gael ei gynnal yn Gymraeg?" Yna, atodir y ffurflen at atgyfeiriad yr unigolyn

Mae cynllun gweithredu 'Mwy na Geiriau' wedi symud yn ei flaen, mae cyswllt yn cael ei gynnal â hyrwyddwyr lleol y Gymraeg, ac mae hyrwyddo'r ystod eang o adnoddau a chyfleoedd sydd ar gael bellach yn arfer safonol.

Mae ein darparwyr comisiynedig yn gweithio mewn partneriaeth â ni i hyrwyddo'r Gymraeg, ac mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn ein contractau a'n cytundebau lefel gwasanaeth.

EIN HADNODDAU ARIANNOL A SUT RYDYM YN CYNLLUNIO AT Y DYFODOL

Cyfanswm y dyraniad cyllideb ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol (Gwasanaethau Oedolion a Phlant) yn 2025/26 oedd £56 miliwn, sy'n cynrychioli cynnydd o £2.13 miliwn o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Ar ddiwedd 2025/26, adroddodd Gwasanaethau Cymdeithasol am orwariant cyffredinol o £2.375 miliwn, yn cynnwys tanwariant o £764,449 o fewn Gwasanaethau Oedolion ac orwariant o £3.140 miliwn o fewn Gwasanaethau Plant.

Llwyddodd Gwasanaethau Oedolion i wario llai na'r gyllideb drwy ei rheoli'n effeithiol, arbedion ar gostau staffio, a gwneud y mwyaf o gyllid grant; helpodd hyn i wrthbwyso pwysau yn sgil y galw ar draws nifer o feysydd gwasanaeth. Fodd bynnag, parhaodd pwysau sylweddol o ran costau ym meysydd gofal cymunedol, byw â chymorth a gwasanaethau cyfreithiol, gan adlewyrchu cymhlethdod cynyddol anghenion gofal a'r galw parhaus am gymorth statudol.

ADNODDAU ARIANNOL (parhad)

Adroddodd Gwasanaethau Plant orwariant o £3,139,894. Roedd y sefyllfa anffafriol yn deillio'n bennaf o bwysau parhaus o fewn gwasanaethau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, yn enwedig lleoliadau preswyl, darpariaeth allanol, costau cyfreithiol a threfniadau sefydlogrwydd. Er gwaethaf rheolaeth ariannol gadarn a defnyddio cyllid grant i liniaru costau lle bo'n bosibl, parhaodd y galw cynyddol a chymhlethdod lleoliadau plant i roi pwysau sylweddol ar gyllideb y gwasanaeth.

Mae'r sefyllfa ariannol yn adlewyrchu'r her barhaus o ddiwallu lefelau cynyddol o alw a chymhlethdod ar draws Gwasanaethau Plant wrth barhau i ddarparu gwasanaethau statudol a chefnogi'r trigolion mwyaf agored i niwed.

Trwy ddarparu adroddiadau rhagolygon ariannol rheolaidd yn unol â fframwaith monitro ac adrodd cyllideb y cyngor, roedd uwch-reolwyr y Gwasanaethau Cymdeithasol yn gallu gwneud penderfyniadau gwybodus ar ddarparu gwasanaethau a rheolaeth ariannol drwy gydol y flwyddyn.

Mae'r gyllideb a ddyrannwyd a'r alldro ar gyfer 2025/26 wedi'u nodi yn y tabl isod:

MAES GWASANAETH	CYLLIDEB	ALLDRO	AMRYWIANT (ANFFAFRIOL) / FFAFRIOL
Gwasanethau Plant	£15,053,330	£18,793,224	(3,139,894)
Gwasanaethau Oedolion	£40,028,370	£39,263,921	764,449
Cyfanswm	**£55,681,700**	**£58,057,145**	**(£2,375,445)**

POBL, LLAIS A RHEOLAETH



133

NIFER Y BOBL SY'N DERBYN TALIADAU UNIONGYRCHOL



140

NIFER Y "CYNIGION GWEITHREDOL" O EIRIOLAETH I BLANT



30

NIFER YR OEDOLION Y DARPARWYD EIRIOLWR PROFFESIYNOL ANNIBYNNOL AR EU CYFER


CRYNODEB 2025/26

Yn ystod 2025/26, parhaodd Pobl, Llais a Rheolaeth i fod yn ffocws allweddol ym Mlaenau Gwent, gan hyrwyddo mwy o ddewis, annibyniaeth a chyfranogiad wrth wneud penderfyniadau. Bu gwell mynediad at eiriolaeth i blant, gwell mynediad at daliadau uniongyrchol, datblygu'r Tîm Asesu Swyddogaethol, a chymorth i oedolion ag anableddau dysgu yn helpu unigolion a theuluoedd i gael y cymorth cywir ar yr amser cywir. Gwnaeth y gwasanaeth geisio'n weithredol i gael barn pobl â phrofiad bywyd, gan weithio i wneud cyfathrebu yn fwy hygyrch.

BETH AETH YN DDA

EIRIOLAETH A SICRHAU BOD LLEISIAU POBL YN CAEL EU CLYWED

Mae'r cyngor yn parhau i hyrwyddo eiriolaeth a chefnogi pobl i gael llais cryf mewn penderfyniadau ynghylch eu gofal a'u cymorth. Yn ystod 2025/26, cafwyd 140 o gynigion gweithredol am eiriolaeth i blant pump oed a hŷn, sef cynnydd sylweddol o'r 87 a gafwyd yn 2024/25. Yn ogystal, cafodd 86 o blant gymorth gan Eiriolwr Proffesiynol Annibynnol, o'i gymharu â 40 y flwyddyn flaenorol. Mae hyn yn dangos ymrwymiad cryfach i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael cymorth i fynegi eu barn ac i gymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt.



Ar gyfer oedolion, nodwyd yr angen am Eiriolwr Proffesiynol Annibynnol mewn 53 o achosion, gyda 30 o oedolion yn derbyn cymorth eirioli; cymharer hyn â'r flwyddyn flaenorol, pan nodwyd 74 o achosion a darparwyd Eiriolwr Proffesiynol Annibynnol i 41 ohonynt. Helpodd hyn i sicrhau bod pobl a allai fod wedi cael trafferth deall prosesau neu fynegi eu dymuniadau yn gallu cymryd rhan ystyrlon mewn asesiadau, adolygiadau, a'r broses o gynllunio gofal.

> "Gwnaeth rhywun wrando arnaf i ddeall fy anghenion a chefais gymorth da iawn pan oedd ei angen."

CEFNOGI POBL I AROS YN ANNIBYNNOL

Cefnogodd Gwasanaethau Oedolion 400 o oedolion trwy wasanaethau gofal cartref, gan ddarparu 6067.75 awr gofal cartref bob wythnos a chwblhau 406 pecyn ailalluogi yn llwyddiannus yn ystod y flwyddyn. Mae'r gwasanaethau hyn wedi galluogi llawer o bobl i aros yn ddiogel yn eu cartrefi a'u cymunedau eu hunain, gan gefnogi annibyniaeth a lleihau dibyniaeth ar wasanaethau tymor hwy. Mae gweithredu'r Tîm Asesu Swyddogaethol (FAsT) wedi cryfhau llwybrau ymhellach trwy gefnogi rhyddhau o'r ysbyty yn amserol a sicrhau bod pecynnau gofal yn cael eu hadolygu i adlewyrchu anghenion newidiol.



400

O OEDOLION YN DERBYN GOFAL CARTREF



406

O BECYNNAU AILALLUOGI WEDI'U CWBLHAU


MWY O DDEWIS A RHEOLAETH TRWY DALIADAU UNIONGYRCHOL

Derbyniodd cyfanswm o 133 o bobl daliadau uniongyrchol (34 o blant a 99 o oedolion), gan eu galluogi i drefnu gofal a chymorth sy'n diwallu eu hanghenion a'u dewisiadau unigol orau. Mae taliadau uniongyrchol yn parhau i fod yn fecanwaith pwysig ar gyfer hyrwyddo annibyniaeth, hyblygrwydd a dewis personol, gan ganiatáu i bobl arfer mwy o reolaeth dros y ffordd y darperir eu cymorth.


Wrth symud ymlaen, byddwn yn parhau i ddatblygu gwasanaeth taliadau uniongyrchol sy'n fwy cynaliadwy ac yn fwy gwydn drwy gydweithio'n agosach â Chyngor Torfaen. Mae cynlluniau ar y gweill i benodi rheolwr tîm ar y cyd ar gyfer y ddau awdurdod. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod mwy o bobl yn gallu cael mynediad at daliadau uniongyrchol a derbyn y cymorth sydd ei angen arnynt i'w rheoli'n effeithiol, gan ddarparu mwy o ddewis, hyblygrwydd a rheolaeth dros y ffordd y darperir eu gofal a'u cymorth.

DARPARU GWYBODAETH, CYNGOR AC YMYRRAETH GYNNAR

Derbyniodd Gwasanaethau Oedolion 4,505 o ymholiadau drwy'r gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth. O'r rhain, datryswyd 2,161 o ymholiadau (48%) ar y pwynt cyswllt drwy ddarparu cyngor, gwybodaeth, cyfeirio neu gymorth ataliol, gan alluogi pobl i gael cymorth yn gyflym heb fod angen asesiad gofal cymdeithasol llawn.



Parhaodd Gwasanaethau Plant i ganolbwyntio'n gryf ar ymyrraeth gynnar hefyd. Yn ystod 2025/26, derbyniwyd 9,373 o atgyfeiriadau, gydag 89.9% ohonynt naill ai'n cael eu cau heb gamau pellach neu'n cael eu trosglwyddo i wasanaethau cymorth ataliol. Mae hyn yn dangos trefniadau effeithiol ar gyfer sgrinio, asesu a chyfeirio, gan sicrhau bod gwasanaethau statudol yn parhau i ganolbwyntio ar y rhai sydd â'r lefelau uchaf o anghenion wrth ddarparu cymorth priodol i deuluoedd cyn gynted â phosibl.



BETH ELLID EI WELLA

DARPARU EIRIOLAETH

Mae eiriolaeth yn parhau i fod yn ddull diogelu pwysig, ond mae bwlch o hyd rhwng yr angen a nodwyd a'r ddarpariaeth. Yn ystod y flwyddyn, nodwyd bod angen Eiriolwr Proffesiynol Annibynnol ar 53 o oedolion, ond dim ond 30 a gafodd gymorth. Mae angen gwaith pellach i ddeall y rhwystrau i fynediad a chryfhau llwybrau atgyfeirio, fel y gall unigolion cymwys dderbyn eiriolaeth amserol a chael eu cefnogi i gymryd rhan lawn mewn penderfyniadau am eu gofal a'u cymorth. Byddwn hefyd yn parhau i adeiladu ar y cynnydd cadarnhaol a wnaed mewn eiriolaeth plant, gan sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael eu cefnogi i gael eu lleisiau wedi'u clywed.



RHEOLI GALW CYNYDDOL A PHWYSAU AR Y GWEITHLU

Mae cyflwyno'r Tîm Asesu Swyddogaethol (FAsT) ar gyfer addasu maint gofal cartref yn ôl yr angen wedi gwella canlyniadau i bobl sy'n gadael yr ysbyty ac y mae angen cymorth arnynt, gan gefnogi hefyd gynaliadwyedd y farchnad gofal cartref ym Mlaenau Gwent. Fodd bynnag, mae'r galw wedi bod yn uwch na'r disgwyl, yn enwedig drwy lwybrau rhyddhau o'r ysbyty. Mae niferoedd uwch o gleifion mewn lleoliadau ysbyty, ynghyd â nifer y derbyniadau ac anghenion mwy cymhleth, wedi rhoi pwysau ar gapasiti'r gwasanaeth, argaeledd y gweithlu, a'r gallu i ymateb.

Mae gwaith recriwtio aseswyr swyddogaethol ychwanegol yn parhau er mwyn cryfhau capasiti ac ymateb i'r galw cynyddol hwn. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod pobl yn cael asesiadau, adolygiadau a chynlluniau cymorth amserol sy'n adlewyrchu eu hanghenion newidiol wrth barhau i ganolbwyntio ar annibyniaeth ac atal.

GALW WRTH Y DRWS FFRYNT A CHYNALIADWYEDD GWASANAETHAU

Er bod Gwasanaethau Oedolion wedi datrys llawer o ymholiadau'n llwyddiannus drwy ddarparu gwybodaeth a chyngor, mae'r galw'n parhau'n sylweddol. Yn yr un modd, mae Gwasanaethau Plant yn parhau i brofi lefelau atgyfeirio uchel yn gyson.

Bydd cynnal gwasanaethau ymyrraeth gynnar effeithiol, wrth reoli'r galw a phwysau ariannol, yn parhau i fod yn brif flaenoriaeth, a byddwn yn parhau i gryfhau ein gwasanaethau Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth i sicrhau bod pobl yn gallu cael gafael ar y cymorth cywir ar yr amser cywir.

Drwy wella gwybodaeth, cyfeirio a llwybrau ymyrryd yn gynnar, ein nod yw datrys mwy o ymholiadau cyn gynted â phosibl, gan leihau'r angen am ymyrraeth statudol lle bo hynny'n briodol a gwella profiad pobl o gael gafael ar gymorth
.

GWREIDDIO FFYRDD NEWYDD O WEITHIO

Mae cynnydd wedi'i wneud o ran cryfhau sicrwydd ansawdd, systemau digidol a modelau darparu gwasanaethau. Fodd bynnag, mae gwaith yn parhau i wreiddio'r dulliau newydd hyn yn llawn, cryfhau goruchwyliaeth, a gwneud mwy o ddefnydd o systemau digidol i gefnogi gofal diogel ac effeithiol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
Bydd hyn yn helpu i wella ansawdd y gwasanaeth, cefnogi staff, a sicrhau bod pobl yn cael cymorth o ansawdd uchel sy'n adlewyrchu eu hanghenion a'u dyheadau unigol. Rhaid cyflawni hyn ochr yn ochr â mynd i'r afael â heriau recriwtio parhaus, gwydnwch y gweithlu, a chynaliadwyedd trefniadau cymorth a ariennir gan grantiau.

Dim ond eisiau dweud pa mor hyfryd a chefnogol rydych chi wedi bod yn ystod ein sgwrs. Roeddech chi'n dangos llawer o ddealltwriaeth, yn gwneud i mi deimlo'n dawel fy meddwl, ac yn gymorth mawr.

Mam a gyfeiriodd ei hun yn ddiweddar at yr adran

PA WAHANIAETH A WNAED?

MWY O DDEWIS A RHEOLAETH

Drwy ddarparu taliadau uniongyrchol i 133 o bobl, gallai unigolion deilwra trefniadau cymorth yn unol â'u hamgylchiadau, eu dewisiadau a'u canlyniadau personol. Roedd yr hyblygrwydd uwch hwn yn galluogi pobl i arfer mwy o reolaeth dros eu bywydau bob dydd, gan hyrwyddo annibyniaeth a llesiant.

CYMORTH CYNHARACH, YN NES AT ADREF


Roedd datblygu gwasanaethau cymunedol yn barhaus – gan gynnwys gofal cartref, ailalluogi a'r Tîm Asesu Swyddogaethol – yn galluogi mwy o bobl i aros yn ddiogel gartref ac osgoi dibyniaeth hirdymor ddiangen ar wasanaethau. Roedd ymyriadau amserol yn cefnogi adferiad, yn gwneud y mwyaf o annibyniaeth, ac yn hwyluso rhyddhau cleifion o'r ysbyty lle'r oedd hynny'n briodol..

GWELL CYMORTH AR GYFER GWNEUD PENDERFYNIADAU

Roedd y defnydd cynyddol o eiriolaeth i blant a darpariaeth barhaus eiriolaeth i oedolion yn sicrhau bod mwy o bobl yn gallu mynegi eu barn, deall eu hopsiynau, a dylanwadu ar benderfyniadau ynghylch eu gofal a'u cymorth. Roedd hyn yn cryfhau dull gweithredu oedd yn seiliedig ar hawliau ac yn canolbwyntio ar yr unigolyn ym mhob gwasanaeth.

MYNEDIAD AMSEROL AT GYMORTH

Roedd sgrinio cryf drwy'r trefniadau Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth yn sicrhau bod llawer o oedolion, plant a theuluoedd yn derbyn cyngor cynnar a chymorth ataliol, gan helpu i atal anghenion rhag gwaethygu a galluogi gwasanaethau statudol i ganolbwyntio ar y rhai oedd yn wynebu'r risg fwyaf



ATAL



153

O ASESIADAU O ANGHENION GOFALWYR MEWN OED WEDI'U CYNNAL



47

O ASESIADAU O ANGHENION GOFALWYR IFANC WEDI'U CWBLHAU



2,156

O YMHOLIADAU OEDOLION A AETH YN EU BLAEN I ASESIAD AC A GAFODD EU TRIN DRWY WASANAETHAU ATAL (GWYBODAETH, CYNGOR A CHYMORTH)



695

O ADRODDIADAU AM OEDOLION YR AMHEUWYD EU BOD YN WYNEBU RISG CAM-DRIN NEU ESGEULUSO

CRYNODEB 2025/26

Parhaodd gwasanaethau atal i gefnogi preswylwyr drwy ymyrraeth gynnar, diogelu, technoleg gynorthwyol a chymorth i deuluoedd, gan helpu pobl i gael gafael ar y cymorth cywir ar yr amser cywir i gynnal eu hannibyniaeth.

Roedd y prif lwyddiannau'n cynnwys perfformiad cryf o ran prosesau amddiffyn plant a darparu cymorth cynnar i dros 1,400 o blant ac oedolion. Trosglwyddwyd yr holl systemau larwm Lifeline i dechnoleg ddigidol yn llwyddiannus, a darparwyd cymorth effeithiol i ofalwyr, teuluoedd mabwysiadol a theuluoedd â Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig. Hefyd, cryfhaodd y cyngor ei ddull ataliol drwy'r Strategaeth Rhianta Corfforaethol newydd (2025–2030) a gwellodd drefniadau comisiynu drwy gyflwyno CareCubed.

BETH AETH YN DDA

COMISIYNU A DIGONOLRWYDD LLEOLIADAU

TLlwyddodd y Tîm Comisiynu Gofal Cymdeithasol a Chymorth Tai i dreialu system CareCubed er mwyn cryfhau prosesau pennu ffioedd a gwella dealltwriaeth ynghylch costau gofal. Mae hyn wedi cefnogi penderfyniadau comisiynu sy'n seiliedig yn fwy ar dystiolaeth a mwy o gysondeb ymhlith darparwyr.Parhaodd cartrefi preswyl mewnol y cyngor i ddarparu opsiwn gwerthfawr ar gyfer lleoliadau lleol, gan gefnogi chwech o blant yn ystod y flwyddyn a helpu rhai plant i aros yn agosach at eu cymunedau a'u rhwydweithiau cymorth.

GWASANAETH MABWYSIADU DE-DDWYRAIN CYMRU

Cryfhaodd y cyngor ei ddull ataliol drwy fabwysiadu Strategaeth Rhianta Corfforaethol 2025–2030, a ddatblygwyd ar y cyd â phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal a phartneriaid. Mae'r strategaeth yn canolbwyntio ar atal, ymyrryd yn gynnar, a gwella canlyniadau i blant a phobl ifanc sydd mewn gofal.

Parhaodd cymorth ataliol i deuluoedd â Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig i fod yn effeithiol, gyda dim ond tri achos lle methodd y trefniant lleoli yn ystod y flwyddyn (1.58% o'r holl achosion Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig), ac nid arweiniodd yr un ohonynt at sefyllfa lle roedd rhaid i'r plant ddychwelyd i ofal yr awdurdod lleol.

Gwnaeth Gwasanaeth Mabwysiadu De-ddwyrain Cymru gynnydd cadarnhaol hefyd o ran cymorth mabwysiadu, gydag 13 o deuluoedd ym Mlaenau Gwent yn derbyn cymorth ar ddiwedd y flwyddyn. Parhaodd y broses recriwtio i fod yn gadarn, gyda 32 o deuluoedd mabwysiadol yn cael eu cymeradwyo ar draws Gwent, a chyflwynwyd strategaeth farchnata ddiwygiedig i gynyddu nifer y cymeradwyaethau dros y tair blynedd nesaf.

YMYRRAETH A CHYMORTH CYNNAR

Parhaodd gwasanaethau atal i gefnogi preswylwyr cyn gynted â phosibl, gan helpu i hyrwyddo annibyniaeth ac atal sefyllfaoedd rhag gwaethygu. Yn 2025/26, derbyniodd Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion 4,822 o atgyfeiriadau a derbyniodd Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant 9,373, gan adlewyrchu galw parhaus. Rheolodd timau atal hefyd 2,156 o ymholiadau ym maes oedolion a aeth ymlaen i asesiad. Yn ystod y flwyddyn, cwblhawyd 153 o asesiadau anghenion gofalwyr sy'n oedolion a 47 o asesiadau anghenion gofalwyr ifanc, gan helpu i nodi anghenion yn gynnar a darparu cyngor a chymorth amserol.

DIOGELU AC AMDDIFFYN PLANT

Yn ystod 2025/26, parhaodd Gwasanaethau Plant i ddarparu cyngor cynnar, cymorth a diogelu i blant a theuluoedd wrth reoli galw cynyddol ar draws y system. Canolbwyntiwyd o hyd ar helpu teuluoedd i gael gafael ar y cymorth cywir ar yr amser cywir, atal anghenion rhag gwaethygu lle bo modd, ac amddiffyn plant a phobl ifanc sy'n wynebu'r risg fwyaf.
Parhaodd gweithgareddau diogelu oedolion i fod yn ymatebol, gydag 852 o adroddiadau am oedolion yr amheuwyd eu bod yn wynebu risg wedi'u derbyn yn ystod y flwyddyn a 352 o achosion yn symud ymlaen i ymholiadau diogelu. Roedd gwaith parhaus i godi ymwybyddiaeth o ddiogelu, ynghyd â hyfforddiant proffesiynol, yn cefnogi'r gwaith o nodi ac amddiffyn oedolion agored i niwed.

352


NIFER YR ADRODDIADAU AM OEDOLYN YR AMHEUWYD EI FOD YN WYNEBU RISG LLE MAE ANGEN GWNEUD YMHOLIADAU

60.7%


O YMHOLIADAU A GWBLHAWYD O FEWN 7 DIWRNOD GWAITH I DDERBYN YR ADRODDIAD AM YR HONIAD O GAM-DRIN

"Roedd y dull a fabwysiadwyd yn ystod y broses ar gyfer ymholiadau diogelu oedolion yn hynod sensitif ac yn gefnogol, gan wneud i mi deimlo bod rhywun yn gwrando arnaf."

Sylw a dderbyniwyd gan oedolyn oedd yn wynebu risg



Parhaodd perfformiad yn erbyn gofynion statudol i fod yn gryf, gyda 98% o Gynadleddau Amddiffyn Plant Cychwynnol yn cael eu cwblhau o fewn yr amserlenni. Ar ddiwedd y flwyddyn, roedd 97 o blant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant, sef ffigwr ychydig yn is na'r 99 a gofnodwyd yn 2024/25. Yn ystod y flwyddyn, tynnwyd 155 o blant oddi ar gynlluniau amddiffyn plant yn briodol wrth i'r risgiau leihau, gan ddangos bod ymyrraeth a chymorth effeithiol wedi digwydd. Gwellodd perfformiad ymweliadau statudol yn sylweddol hefyd, gyda 94.9% o ymweliadau'n cael eu cwblhau o fewn yr amserlenni statudol, o'i gymharu ag 87.0% y flwyddyn flaenorol.



49

NIFER Y GRWPIAU O FRODYR A CHWIORYDD AR Y GOFRESTR AMDDIFFYN PLANT

165.2

NIFER CYFARTALOG Y DYDDIAU Y MAE PLANT WEDI BOD AR Y GOFRESTR AMDDIFFYN PLANT


TECHNOLEG GYNORTHWYOL


Gwnaed cynnydd sylweddol wrth foderneiddio gwasanaethau technoleg gynorthwyol. Trosglwyddwyd yr holl systemau larwm Lifeline analog yn llwyddiannus i offer sy'n gydnaws â systemau digidol, gan sicrhau bod y gwasanaeth yn parhau cyn y broses genedlaethol o ddiffodd systemau analog.

Diogelodd y rhaglen waith fawr hon drefniadau cymorth ar gyfer preswylwyr agored i niwed, gan sicrhau cydymffurfedd â gofynion telathrebu digidol yn y dyfodol.

Arweiniodd hyrwyddo technoleg gynorthwyol hefyd at fwy o bobl yn defnyddio'r gwasanaeth, gyda 243 o unigolion newydd yn ei ddefnyddio yn ystod 2025/26, o'i gymharu â 204 yn y flwyddyn flaenorol. Mae hyn yn adlewyrchu ymwybyddiaeth gynyddol o fanteision technoleg wrth gefnogi annibyniaeth a lleihau'r angen am ymyriadau mwy dwys ym maes iechyd a gofal cymdeithasol.

.





Gwellais i ac rydw i'n hapus

BETH ELLID EI WELLA

MWY O ALW A CHYMHLETHDOD

Mae'r galw am wasanaethau i oedolion ac i blant yn parhau i fod yn uchel ac yn cynyddu mewn cymhlethdod. Er i atgyfeiriadau diogelu ar gyfer oedolion gynyddu 2.2% – cynnydd cymharol gymedrol – gwelwyd cynnydd o 18% yn nifer yr ymholiadau diogelu; mae hyn yn dangos lefelau uwch o gymhlethdod ac yn dynodi bod angen mwy o ymyrraeth. Bydd angen monitro parhaus i sicrhau bod gan y gwasanaethau'r capasiti a'r adnoddau angenrheidiol i ymateb yn effeithiol i'r galw cynyddol.

.Ochr yn ochr â chynnydd mewn ymholiadau diogelu, mae Gwasanaethau Oedolion wedi gweld cynnydd yng nghymhlethdod anghenion gofal a chymorth, gan gynnwys galw cynyddol am ddarpariaeth gomisiynedig fel gofal cartref arbenigol a lleoliadau mewn cartrefi gofal. Bydd y cyngor yn parhau i gryfhau dulliau ataliol a gwasanaethau ymyrraeth gynnar i leihau gwaethygu lle bynnag y bo modd a chefnogi darpariaeth gwasanaethau cynaliadwy.

PRYDLONDEB DIOGELU

Er bod gweithgareddau diogelu wedi parhau i fod yn gadarn, dim ond 60.7% o ymholiadau diogelu oedolion a gwblhawyd o fewn saith diwrnod gwaith. Mae angen gwaith pellach i wella prydlondeb ac i sicrhau bod pryderon diogelu yn cael eu hymchwilio iddynt mor gyflym â phosibl, gan gynnal ansawdd a chymesuredd ar yr un pryd.

DIGONOLRWYDD LLEOLIADAU PRESWYL

Er bod darpariaeth breswyl leol yn parhau i fod yn bwysig, mae lefelau meddiannaeth yn parhau i gael eu heffeithio gan heriau o ran paru plant yn ddiogel mewn lleoliadau a rennir. Yn ystod 2026/27, ystyrir y defnydd yn y dyfodol o Madison House a'r ffordd orau o wneud y mwyaf o gyfleoedd lleoli lleol, mewn ymateb i bwysau o ran digonolrwydd a galw sy'n newid.

ARGAELEDD MABWYSIADU A LLEOLIADAU

Er bod gweithgareddau recriwtio ym maes mabwysiadu wedi bod yn gadarnhaol, mae argaeledd mabwysiadwyr a digonolrwydd lleoliadau ehangach yn parhau i fod yn heriau allweddol. Bydd gwaith yn y dyfodol yn canolbwyntio ar gynyddu nifer y mabwysiadwyr, cryfhau trefniadau cymorth ar ôl mabwysiadu, ehangu arfer sy'n seiliedig ar drawma, a gwella mecanweithiau adborth i deuluoedd.

.

CAPASITI YN Y GWEITHLU AC MEWN GWASANAETHAU

Bydd recriwtio a chadw gweithwyr cymdeithasol cymwysedig i gynnal gweithlu medrus a gwydn yn parhau i fod yn flaenoriaeth, er mwyn sicrhau y gall gwasanaethau ataliol barhau i ymateb yn effeithiol.

TWF YM MAES TECHNOLEG GYNORTHWYOL

Er bod y defnydd wedi cynyddu, mae cyfle pellach o hyd i ehangu ymwybyddiaeth a defnydd o dechnoleg gynorthwyol ac atebion digidol sy'n dod i'r amlwg. Bydd hyrwyddo parhaus gyda gweithwyr proffesiynol, gofalwyr a phreswylwyr yn helpu i wneud y mwyaf o fanteision ataliol gofal sy'n cael ei alluogi gan dechnoleg.

PA WAHANIAETH A WNAED?

CYMORTH CYNHARACH

Cafodd cyfanswm o 1,405 o bobl eu cefnogi drwy wasanaethau ataliol yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys 1,072 o blant a 333 o oedolion. Roedd ymyrraeth gynnar yn galluogi llawer o unigolion a theuluoedd i gael gafael ar gymorth cyn i anghenion waethygu, gan eu helpu i gynnal gwydnwch a lleihau'r ddibyniaeth ar wasanaethau mwy dwys.

Cafodd gofalwyr fudd o asesiadau pwrpasol a nododd anghenion cymorth ac a hyrwyddodd lesiant, gan helpu i gynnal perthnasoedd gofalu hanfodol ac atal trefniadau gofal rhag chwalu.

GWELL AMDDIFFYNIADU RHAG NIWED

Roedd gwasanaethau diogelu yn sicrhau bod pryderon ynghylch plant ac oedolion agored i niwed yn cael eu nodi a'u hymateb iddynt yn briodol. Roedd perfformiad amddiffyn plant gwell, cydymffurfedd uchel ag amserlenni cynadleddau, a mwy o weithgarwch ymweld statudol yn cyfrannu at oruchwyliaeth well o risg a chanlyniadau gwell i blant.

Ar gyfer oedolion, darparodd ymholiadau diogelu amddiffyniad a chymorth lle'r oedd amheuaeth o gamdriniaeth neu esgeulustod, gan helpu i leihau risgiau a gwella diogelwch i unigolion agored i niwed.

BYW'N ANNIBYNNOL

Roedd mudo'n llwyddiannus i dechnoleg gynorthwyol ddigidol yn sicrhau bod trigolion agored i niwed yn parhau i dderbyn cymorth dibynadwy wrth elwa o atebion technoleg fodern. Galluogodd y defnydd cynyddol o dechnoleg gynorthwyol fwy o bobl i aros yn ddiogel yn eu cartrefi eu hunain, gan leihau ynysigrwydd cymdeithasol a chefnogi annibyniaeth.

MWY O SEFYDLOGRWYDD I BLANT

Mae cymorth ataliol a ddarparwyd drwy rianta corfforaethol, gwasanaethau Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig, cymorth mabwysiadu ac ymyriadau teuluol wedi helpu i gynnal trefniadau teuluol sefydlog ac atal plant rhag mynd i ofal neu ddychwelyd i ofal yn ddiangen. Mae lefelau isel o darfu ar Orchmynion Gwarcheidiaeth Arbennig a sefydlogrwydd cryf lleoliadau yn dangos effaith y dull ataliol hwn.

DEFNYDD MWY EFFEITHIOL O ADNODDAU

Cryfhaodd cyflwyno system CareCubed y trefniadau comisiynu, gan gefnogi gwell gwerth am arian a mwy o dryloywder wrth drafod ffioedd gofal. Mae hyn yn darparu sail gadarnach ar gyfer penderfyniadau comisiynu cynaliadwy wrth helpu i sicrhau bod defnyddwyr gwasanaethau yn parhau i dderbyn gofal a chymorth diogel o ansawdd uchel.



PARTNERIAETHAU



CRYNODEB 2025/26

Roedd gweithio mewn partneriaeth yn parhau i fod yn gryfder allweddol ar draws gwasanaethau cymdeithasol, gan gefnogi gwasanaethau mwy integredig a chynaliadwy sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Roedd cydweithio rhwng y cyngor, gwasanaethau iechyd, sefydliadau'r trydydd sector, darparwyr gofal a chymunedau lleol yn gwella'r broses o gydlynu gwasanaethau, yn cryfhau diogelu, yn cefnogi rhyddhau cleifion o'r ysbyty yn amserol, ac yn gwella mentrau llesiant cymunedol. Roedd cyflwyno cydlynwyr timau amlddisgyblaethol a'r Tîm Asesu Swyddogaethol yn gwella cydweithio a chanlyniadau i bobl ag anghenion cymhleth, tra oedd gwelliannau dan arweiniad y gymuned yn Nhŷ Augusta yn dangos effaith gadarnhaol gweithredu ar y cyd. Bydd gwaith yn y dyfodol yn canolbwyntio ar ymgorffori dulliau integredig, ehangu trefniadau ar gyfer timau amlddisgyblaethol, a chryfhau partneriaethau rhanbarthol a chymunedol i ymateb i'r galw a gwella canlyniadau i drigolion.

BETH AETH YN DDA

GWEITHIO MEWN PARTNERIAETH A CHYDWEITHIO RHANBARTHOL

Roedd gwaith partneriaeth cryf ar draws Gwasanaethau Oedolion yn parhau i gefnogi gwella gwasanaethau a datblygiadau rhanbarthol drwy gydol y flwyddyn. Roedd cydweithio â phartneriaid iechyd, Llywodraeth Cymru, sefydliadau trydydd sector, darparwyr gofal ac awdurdodau cyfagos yn cryfhau datblygiad gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol integredig ar draws Blaenau Gwent a'r rhanbarth ehangach. Cefnogodd y dull ar y cyd hwn ddealltwriaeth well o gostau gofal, cynaliadwyedd gwasanaethau a pherfformiad, gan helpu i lywio'r gwaith o gynllunio a darparu gwasanaethau yn y dyfodol.

Cyfrannodd trefniadau partneriaeth hefyd at amrywiaeth o fentrau llesiant cymunedol, gan gynnwys Blaenau Gwent Hapus ac lach a rhaglenni gofal eraill mewn lleoedd penodol. Roedd cydweithio rhanbarthol yn cryfhau ymhellach y trefniadau diogelu ar gyfer oedolion agored i niwed, yn hyrwyddo arferion cymesur sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, ac yn cefnogi sefydlu swydd newydd ym maes iechyd meddwl fforensig i wella cymorth arbenigol ar draws Blaenau Gwent a Thorfaen.

CYDLYNWYR TIMAU AMLDDISGYBLAETHOL

Mae cyflwyno cydlynwyr timau amlddisgyblaethol o fewn y Tîm Adnoddau Cymunedol wedi cryfhau gweithio mewn partneriaeth rhwng gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r rôl wedi gwella'r gwaith o gydlynu atgyfeiriadau, cynnal adolygiadau, a chymryd camau dilynol ar gyfer unigolion ag anghenion cymhleth, gan gefnogi penderfyniadau mwy amserol a chyfathrebu gwell rhwng asiantaethau.

Mae'r dull tîm amlddisgyblaethol wedi gwella rhannu gwybodaeth, lleihau dyblygu, a helpu i sicrhau bod unigolion yn derbyn cymorth cydlynol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae gweithredu cynnar wedi dangos gwerth cydlynu penodedig wrth gefnogi gwaith amlddisgyblaethol a gofal cymunedol effeithiol.

Ar ran y tim cyfan, diolch yn fawr iawn am eich cefnogaeth a'ch cydweithrediad. Edrychwn ymlaen at barhau a'n perthynas waith agos drwy gydol 2026 a'r blynyddoedd i ddod, wrth i ni gydweithio i wella ymhellach y ddarpariaeth gofal yn ein cymunedau.


Sylw a dderbyniwyd gan ddarparwr mewn perthynas â Thîm Comisiynu Gofal Cymdeithasol a Chymorth Tai yr awdurdod lleol a Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan


DATBLYGU GWASANAETHAU AC YMGYSYLLTU Â'R GYMUNED


Roedd gweithio mewn partneriaeth yn chwarae rôl allweddol wrth yrru datblygiad gwasanaethau ac ymgysylltu â'r gymuned. Gwnaeth y Tîm Asesu Swyddogaethol newydd wella integreiddio rhwng gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, gan gefnogi rhyddhau cleifion o'r ysbyty yn amserol ac adolygiadau cynharach o anghenion gofal.

Dangosodd gwelliannau sylweddol yn Nhŷ Augusta hefyd gryfder gweithio ar y cyd, wrth i sefydliadau lleol, ysgolion, teuluoedd, preswylwyr, gwirfoddolwyr a thimau'r cyngor ddod ynghyd i wella amgylchedd a phrofiadau'r preswylwyr. Amlygodd yr ymdrech ar y cyd hon yr effaith gadarnhaol y gall partneriaethau dan arweiniad y gymuned ei chael ar ansawdd gwasanaethau a chanlyniadau llesiant.

Mae gwaith partneriaeth effeithiol yn sicrhau gofal a chanlyniadau o ansawdd uchel i'n cleientiaid sy'n oedolion mewn cartrefi preswyl a chartrefi nyrsio







BETH ELLID EI WELLA

PARTNERIAETHAU AC INTEGREIDDIO

Er bod trefniadau partneriaeth cadarn ar waith, mae angen parhau i weithio i gefnogi datblygiad y model gofal cymdeithasol rhanbarthol ar gyfer y dyfodol ac i sicrhau bod gwasanaethau'n parhau i fod yn gynaliadwy wrth ymateb i alw cynyddol a phwysau ariannol. Mae cyfleoedd i gryfhau ymhellach y defnydd o ddata rhanbarthol, gwybodaeth gyffredin am berfformiad a threfniadau cynllunio ar y cyd er mwyn cefnogi darpariaeth gwasanaethau gyson ar draws y sefydliadau partner.

Bydd cydweithio yn y dyfodol yn canolbwyntio ar ddyfnhau'r integreiddio rhwng gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, adeiladu ar fentrau presennol sy'n seiliedig ar leoedd, a sicrhau bod trefniadau diogelu ac iechyd meddwl rhanbarthol yn parhau i ddiwallu anghenion sy'n dod i'r amlwg.

CYDLYNU TIMAU AMLDDISGYBLAETHOL

Gan fod rôl y cydlynydd tîm amlddisgyblaethol yn ddatblygiad cymharol newydd, mae angen mireinio prosesau a chyfrifoldebau ymhellach wrth i'r model gael ei wreiddio'n llawn. Nodwyd bod mwy o gyfranogiad gan ystod ehangach o weithwyr proffesiynol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yng nghyfarfodydd y timau amlddisgyblaethol yn faes datblygu allweddol, er mwyn gwneud y mwyaf o effeithiolrwydd trafodaethau a phenderfyniadau amlddisgyblaethol.

Mae cyflwyno cydlynwyr timau amlddisgyblaethol yn ehangach wedi'i ohirio'n fwriadol er mwyn gallu dysgu o'r cam gweithredu cychwynnol a sicrhau bod y model darparu mwyaf effeithiol yn cael ei sefydlu. Hyd yma, mae'r gwasanaeth wedi'i weithredu mewn un practis meddyg teulu, gyda chynlluniau i'w ehangu i bractis arall ym mis Medi 2026.

.

DATBLYGU GWASANAETHAU GYDA'N GILYDD

Er bod cynnydd cadarnhaol wedi'i wneud, mae cyfle i adeiladu ar y trefniadau partneriaeth presennol drwy gynyddu cyfranogiad y gymuned wrth ddylunio gwasanaethau a chryfhau'r ymgysylltiad â grwpiau lleol a rhanddeiliaid. Bydd datblygu gwasanaethau integredig yn barhaus yn bwysig er mwyn sicrhau cymorth amserol i unigolion a chynnal llwybrau effeithiol rhwng gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol a gwasanaethau cymunedol.

Bydd gwaith yn y dyfodol yn canolbwyntio ar gynnal mentrau llwyddiannus, ymestyn cyfleoedd partneriaeth, a sicrhau bod dulliau dan arweiniad y gymuned yn parhau i gyfrannu at wella gwasanaethau a chanlyniadau cadarnhaol i drigolion.

PA WAHANIAETH A WNAED?

GWEITHIO GYDA'N GILYDD

Roedd gweithio mewn partneriaeth yn galluogi gwasanaethau i ddarparu gwasanaethau mwy integredig, cynaliadwy ac ymatebol. Roedd cydweithio yn gwella cydlynu ar draws sefydliadau, yn cryfhau trefniadau diogelu, ac yn cefnogi mentrau sy'n hyrwyddo annibyniaeth, llesiant ac atal. Roedd creu swydd iechyd meddwl fforensig yn cryfhau'r cymorth arbenigol oedd ar gael ar draws y rhanbarth, tra helpodd cynllunio ar y cyd i gryfhau'r sylfeini ar gyfer cynaliadwyedd gwasanaethau yn y dyfodol.

.

GWEITHIO MEWN PARTNERIAETH AMLDDISGYBLAETHOL


Mae rôl y cydlynydd tîm amlddisgyblaethol wedi gwella profiad unigolion ag anghenion cymhleth drwy sicrhau bod atgyfeiriadau, adolygiadau a chamau gweithredu yn cael eu cydlynu'n fwy effeithiol. Mae gwell cyfathrebu a rhannu gwybodaeth rhwng asiantaethau wedi lleihau oedi, cefnogi gwneud penderfyniadau'n gynt, a galluogi gweithwyr proffesiynol i gydweithio'n fwy effeithlon. O ganlyniad, mae unigolion wedi elwa ar gymorth mwy cydgysylltiedig sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn o fewn eu cymunedau.

PARTNERIAETHAU GWASANAETH A CHYMUNED

Cyfrannodd y Tîm Asesu Swyddogaethol at ganlyniadau gwell drwy gefnogi rhyddhau cynharach o'r ysbyty a sicrhau bod anghenion gofal yn cael eu hadolygu'n fwy prydlon, gan helpu unigolion i ddychwelyd adref yn ddiogel a chael mynediad at y cymorth cywir ar yr amser cywir.

Arweiniodd gwaith partneriaeth gymunedol yn Nhŷ Augusta at welliannau diriaethol i'r amgylchedd ac i ansawdd bywyd y preswylwyr. Roedd cyfranogiad sefydliadau lleol, ysgolion, gwirfoddolwyr a theuluoedd yn cryfhau cysylltiadau cymunedol, yn cynyddu cyfleoedd ar gyfer ymgysylltu, ac yn dangos sut y gall dulliau cydweithredol wella llesiant preswylwyr ac ansawdd gwasanaethau yn uniongyrchol.

Mae gweithio mewn partneriaeth ym maes maethu yn golygu bod gweithwyr proffesiynol a gofalwyr gwahanol yn cydweithio i gefnogi diogelwch, llesiant a datblygiad plentyn.



LLESIANT



202

Nifer y plant sy'n derbyn gofal



114

Nifer yr oedolion sy'n derbyn gofal seibiant



911

Nifer yr oedolion sydd â chynllun gofal a chymorth



615


Nifer y plant sydd A chynllun gofal a chymorth

CRYNODEB 2025/26

Yn ystod 2025/26, parhaodd Gwasanaethau Plant a Gwasanaethau Oedolion i ganolbwyntio ar wella llesiant drwy helpu pobl i aros yn ddiogel ac yn annibynnol ac wedi'u cysylltu â'u cymunedau. Cefnogodd perfformiad statudol cryf ganlyniadau cadarnhaol i blant sy'n derbyn gofal, tra oedd buddsoddiad mewn sgiliau byw'n annibynnol, darpariaeth seibiant, mentrau cyflogaeth a chymorth cymunedol yn helpu oedolion a phobl ifanc i gynyddu hyder, dewis ac annibyniaeth. Cryfhawyd cymorth i ofalwyr di-dâl drwy weithgareddau llesiant, asesiadau, cymorth ariannol ac ymgysylltu wedi'i dargedu, gan helpu gofalwyr i deimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n fwy a'u bod yn fwy cydnabyddedig a gwybodus. Er gwaethaf y cynnydd hwn, mae heriau parhaus sy'n ymwneud â galw, capasiti'r gweithlu ac ymgysylltu â gofalwyr yn golygu bod ffocws parhaus ar atal, ymyrraeth gynnar a chymorth llesiant yn parhau i fod yn hanfodol.

PLANT SY'N DERBYN GOFAL

Roedd cefnogi llesiant plant sy'n derbyn gofal yn parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol drwy gydol y flwyddyn. Roedd perfformiad yn erbyn gofynion ymweld statudol yn gryf, gyda 95% o ymweliadau wedi'u cwblhau o fewn yr amserlenni gofynnol, gan helpu i sicrhau bod diogelwch, llesiant emosiynol ac anghenion datblygiadol plant yn cael eu hadolygu a'u cefnogi'n rheolaidd. Er bod nifer y plant sy'n derbyn gofal wedi aros yn gymharol sefydlog, sef 202 ar ddiwedd y flwyddyn, parhaodd y gwasanaeth i ganolbwyntio ar gyflawni canlyniadau llesiant cadarnhaol trwy waith cynllunio gofal a threfniadau sefydlogrwydd effeithiol. Helpodd cyfarfodydd rhyddhau misol a gwaith diddymu gorchmynion gofal i gynnal ffocws ar blant a allai ddychwelyd yn ddiogel i ofal rhieni neu ofal gan berthnasau, gan gefnogi perthnasoedd teuluol, sefydlogrwydd a pherthyn. Mae ailstrwythuro'r gwasanaeth, gan greu timau penodedig ar gyfer amddiffyn plant, y llysoedd a phlant sy'n derbyn gofal, wedi cryfhau goruchwyliaeth a'r broses o wneud penderfyniadau, gan sicrhau bod plant yn derbyn cymorth amserol sy'n hyrwyddo eu llesiant a'u canlyniadau hirdymor



60

NIFER Y PLANT SY'N DERBYN GOFAL SYDD WEDI'U LLEOLI YNG NGHYMRU OND Y TY ALLAN I FLAENAU GWENT

10

NIFER Y PLANT SY'N DERBYN GFOAL SYDD WEDI'U LLEOL Y TU ALLAN I GYMRU

S

GOFAL A CHYMORTH HIRDYMOR

Parhaodd y cyngor i gefnogi llesiant 966 o oedolion a 617 o blant oedd â chynlluniau gofal a chymorth, gan helpu unigolion i gyflawni mwy o annibyniaeth, dewis a chynhwysiant yn eu cymunedau.

Gwnaeth gwasanaethau ganolbwyntio ar alluogi pobl i fyw bywydau boddhaus drwy feithrin sgiliau, hyder a gwydnwch.


Roedd y Cabanau Sgiliau Byw'n Annibynnol yn cefnogi unigolion i ddatblygu sgiliau bywyd ymarferol sy'n gwella annibyniaeth a llesiant personol, tra oedd gwybodaeth well a straeon personol yn cynyddu ymwybyddiaeth o opsiynau cymorth ac yn annog dulliau mwy personol

Roedd rhaglenni fel Blaengaredd, Opsiynau Cymunedol a mentrau cyflogaeth â chymorth yn creu cyfleoedd ar gyfer datblygu sgiliau, gwirfoddoli a chyflogaeth, gan hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol, hyder ac ymdeimlad o bwrpas – pethau sydd oll yn cyfrannu'n gadarnhaol at lesiant.

Ehangodd Tŷ Augusta gymorth seibiant i blant a theuluoedd, gyda gwelliannau i fannau awyr agored a arweiniwyd gan y gymuned yn gwella ymhellach y cyfleoedd ar gyfer hamdden, rhyngweithio cymdeithasol a llesiant.

Roedd y cymorth i bobl ifanc sy'n pontio i fod yn oedolion hefyd yn parhau i hyrwyddo annibyniaeth a chanlyniadau bywyd cadarnhaol drwy fwy o gyfranogiad ym mywyd y gymuned.

Mae'r ffotograff gwreiddiol yn cynnwys testun Saesneg. Darperir cyfieithiad Cymraeg isod
Pa fathau o wirfoddoli hoffech chi trio







GOFALWYR DI-DÂL

Gwnaed cynnydd sylweddol wrth hyrwyddo llesiant gofalwyr di-dâl drwy wella gwaith adnabod, ymgysylltu a chefnogi. Canolbwyntiodd y gwaith ar sicrhau y gallai gofalwyr gael mynediad at wybodaeth, cyngor a chymorth yn gynharach, gan eu helpu i ymdopi â'r heriau sy'n gysylltiedig â'u cyfrifoldebau gofalu. Darparodd y Gronfa Cymorth i Ofalwyr gymorth ariannol uniongyrchol, cyngor ar fudd-daliadau, cymorth cyllidebu, cymorth cyflogaeth a mynediad at dechnoleg, gan helpu i leihau pwysau ariannol a gwella llesiant. Roedd cyfleoedd ymgysylltu fel boreau coffi, gweithdai a gweithgareddau cymunedol yn galluogi gofalwyr i feithrin cysylltiadau cymdeithasol, lleihau teimladau o ynysigrwydd a gwella llesiant emosiynol.
Mae'r bartneriaeth gydag Adferiad wedi cryfhau'r cymorth sydd ar gael ar draws Blaenau Gwent, gyda swyddogion ymgysylltu penodedig yn helpu i godi ymwybyddiaeth am ofalwyr di-dâl ac yn datblygu rhaglenni gweithgareddau strwythuredig. Eleni, mae 134 o ofalwyr ifanc wedi derbyn cymorth. Mae gofalwyr ifanc ac oedolion ifanc sy'n ofalwyr wedi elwa ar asesiadau, cynlluniau cymorth, grwpiau wythnosol, ymweliadau addysgol, cyfleoedd Gwobr Dug Caeredin a chymorth un-i-un, gan eu helpu i gynnal cydbwysedd rhwng eu cyfrifoldebau gofalu a'u hiechyd a'u llesiant a'u dyheadau ar gyfer y dyfodol.
aspirations.

BETH ELLID EI WELLA

PLANT SY'N DERBYN GOFAL

Er bod cyfanswm y plant sy'n derbyn gofal wedi aros yn sefydlog, cynyddodd y derbyniadau i ofal o 53 i 73, gan adlewyrchu pwysau parhaus ar deuluoedd a galw cynyddol am ymyrraeth. Mae digonolrwydd lleoliadau yn parhau i effeithio ar ganlyniadau llesiant, gyda 60 o blant wedi'u lleoli y tu allan i Flaenau Gwent a deg wedi'u lleoli y tu allan i Gymru. Gall cael ei leoli i ffwrdd o'r cartref effeithio ar allu plentyn i gynnal cysylltiadau teuluol, cyfeillgarwch, addysg a chysylltiadau cymunedol, sydd i gyd yn gyfranwyr pwysig at lesiant emosiynol a gwydnwch. Bydd buddsoddiad parhaus mewn gwasanaethau ataliol, cymorth i deuluoedd a darpariaeth lleoliadau lleol yn hanfodol wrth helpu mwy o blant i aros wedi'u cysylltu'n ddiogel â'u cymunedau a'u rhwydweithiau cymorth.

GOFAL A CHYMORTH HIRDYMOR

Er bod cynnydd wedi'i wneud wrth gefnogi llesiant drwy amrywiaeth o wasanaethau cymunedol, mae angen parhau i ehangu darpariaeth seibiant ac opsiynau amgen, megis trefniadau cysylltu bywydau. Mae'r gwasanaethau hyn yn chwarae rhan hanfodol wrth gynnal llesiant drwy roi seibiant i deuluoedd a gofalwyr rhag eu cyfrifoldebau gofalu, a thrwy alluogi unigolion i gael mwy o ddewis ac annibyniaeth. Bydd datblygu cyfleoedd cymunedol ac opsiynau cymorth hyblyg yn barhaus yn helpu i sicrhau bod pobl yn gallu cael gafael ar wasanaethau sy'n diwallu eu hanghenion llesiant a'u dyheadau orau

GOFALWYR DI-DÂL

Er gwaethaf datblygiadau cadarnhaol, mae lefelau ymgysylltu â gofalwyr di-dâl yn parhau i fod yn gymharol isel. Mae hyn yn cyfyngu ar gyfleoedd i ddeall anghenion llesiant gofalwyr yn llawn, hyrwyddo'r cymorth sydd ar gael, a dangos canlyniadau. Mae adnabod gofalwyr yn gynharach yn parhau i fod yn hanfodol i sicrhau bod cymorth yn cael ei ddarparu cyn i gyfrifoldebau gofalu ddechrau cael effaith negyddol ar iechyd corfforol, llesiant emosiynol, addysg neu gyflogaeth. Mae angen gwaith pellach i godi ymwybyddiaeth ar draws gwasanaethau a chymunedau fel bod gofalwyr o bob oed yn cael eu cydnabod a'u cefnogi cyn gynted â phosibl. Bydd cynnal ymgysylltiad a dangos tystiolaeth o fanteision hirdymor cymorth i lesiant hefyd yn bwysig wrth symud ymlaen.



155

NIFER YR OEDOLION SY'N OFALWYR A ASESWYD GAN WASANAETHAU CYMDEITHASOL

I FYNY O 36 O'I GYMHARU Â'R LLYNEDD



PA WAHANIAETH A WNAED?

PLANT SY'N DERBYN GOFAL

Cyfrannodd y cymorth a ddarparwyd drwy gydol y flwyddyn at well llesiant drwy sicrhau bod plant yn ddiogel ac yn cael eu cefnogi a'u gweld yn rheolaidd gan weithwyr proffesiynol. Roedd ffocws parhaus ar gynllunio ar gyfer sefydlogrwydd yn helpu rhai plant i aros yn ddiogel gydag aelodau o'u teuluoedd, neu ddychwelyd atynt, gan gryfhau eu hymdeimlad o sefydlogrwydd, hunaniaeth a pherthyn. Mae cynllunio gofal effeithiol a goruchwyliaeth gryfach o'r gwasanaeth wedi helpu i sicrhau bod plant yn cael cymorth sydd nid yn unig yn diwallu eu hanghenion uniongyrchol, ond hefyd yn hyrwyddo canlyniadau llesiant cadarnhaol yn y tymor hwy, gan gynnwys diogelwch emosiynol, perthnasoedd iach a gwell cyfleoedd bywyd.

GOFAL A CHYMORTH HIRDYMOR

TMae'r cymorth a ddarparwyd wedi galluogi unigolion i wella eu hannibyniaeth, eu hyder a'u hansawdd bywyd cyffredinol. Drwy ddatblygu sgiliau ymarferol a manteisio ar gyfleoedd i wirfoddoli, cael gwaith ac ymgysylltu â'r gymuned, mae pobl wedi dod yn fwy gweithgar ac wedi meithrin cysylltiadau cryfach o fewn eu cymunedau. Mae'r cyfleoedd hyn wedi cefnogi llesiant emosiynol, cymdeithasol a chorfforol drwy leihau ynysigrwydd, hybu hunan-barch, a meithrin mwy o annibyniaeth. Mae gwasanaethau seibiant gwell hefyd wedi helpu i gryfhau gwydnwch a llesiant teuluoedd drwy ddarparu cymorth gwerthfawr a chyfleoedd i deuluoedd gynnal trefniadau gofalu.

GOFALWYR DI-DÂL

Mae'r cymorth a ddarparwyd wedi helpu gofalwyr di-dâl i deimlo eu bod yn cael eu cydnabod a'u gwerthfawrogi a'u bod wedi'u cysylltu'n fwy. Mae cymorth ariannol, gweithgareddau a chefnogaeth gan gymheiriaid wedi lleihau caledi ac ynysigrwydd, tra bod mynediad at gyngor wedi cynyddu hyder yn eu rôl ofalu. I ofalwyr ifanc a gofalwyr sy'n oedolion ifanc, mae cymorth penodedig wedi cryfhau hyder, cyfranogiad addysgol a chyfleoedd yn y dyfodol wrth leihau effaith cyfrifoldebau gofalu ar eu bywydau beunyddiol. At ei gilydd, mae'r ymyriadau hyn wedi gwella gwydnwch, iechyd meddwl ac ansawdd bywyd gofalwyr di-dâl ledled Blaenau Gwent.

PA GYNNYDD RYDYM WEDI'I WNEUD O RAN 'MEYSYDD I'W GWELLA' Y LLYNEDD

MEYSYDD I'W GWELLA'R LLYNEDD	Y CYNNYDD A WNAED
Cydweithio i gyflawni atebion, blaenoriaethau a chanlyniadau ar y cyd wrth leihau dyblygu ac ymateb i bwysau ariannol	Mae gweithio mewn partneriaeth a chydweithio rhanbarthol wedi gwella cydlynu, lleihau dyblygu a chefnogi cynaliadwyedd. Mae angen gwaith pellach i gryfhau integreiddio a rheoli pwysau parhaus
Bwrw ymlaen â ffederaleiddio gyda Thorfaen drwy ddatblygu a gweithredu strwythurau a gwasanaethau a rennir	Mae cydweithio â Thorfaen wedi cynyddu drwy wasanaethau a rennir a rolau rhanbarthol, gan wella gwydnwch a lleihau dyblygu. Mae angen gwaith pellach i wreiddio trefniadau ffederal a gwneud y mwyaf o fanteision cydweithio.
Mae cynaliadwyedd yn parhau i fod yn her oherwydd y ddibyniaeth ar swyddi a ariennir gan grantiau	Roedd gweithio mewn partneriaeth, cydweithredu rhanbarthol a chomisiynu gwell yn cryfhau cynaliadwyedd. Fodd bynnag, mae dibyniaeth ar swyddi a ariennir gan grantiau a phwysau ariannol parhaus yn parhau i fod yn heriau.
Datblygu dulliau ataliol newydd sy'n seiliedig ar y gymuned i helpu i reoli'r galw	Roedd dulliau ataliol sy'n seiliedig ar y gymuned yn gwella cymorth cynnar, yn hyrwyddo annibyniaeth, ac yn helpu i reoli'r galw. Mae angen gwaith pellach i ehangu eu heffaith.
Cofrestru'r ddau gartref preswyl gydag Arolygiaeth Gofal Cymru a chefnogi lleoliadau lleol i blant ag anghenion cymhleth	Roedd darpariaeth breswyl leol yn cefnogi chwech o blant ac yn galluogi rhai i aros yn agosach at adref. Fodd bynnag, mae heriau o ran paru lleoliadau yn parhau i gyfyngu ar gyfleoedd lleoli lleol.

WHAT PROGRESS HAVE WE MADE ON LAST YEAR'S 'AREAS FOR IMPROVEMENT'

LAST YEAR'S AREAS FOR IMPROVEMENT	PROGRESS MADE
Parhau i weithredu'r Strategaeth Plant sy'n Derbyn Gofal a monitro niferoedd i sicrhau tuedd ar i lawr	Parhawyd i weithredu'r Strategaeth Plant sy'n Derbyn Gofal, sydd wedi galluogi trefniadau goruchwylio a chynllunio gofal cryfach. Fodd bynnag, cynyddodd derbyniadau i ofal ac arhosodd nifer y plant sy'n derbyn gofal yn sefydlog, gan amlygu'r angen i ganolbwyntio'n barhaus ar waith atal a chymorth i deuluoedd.
Parhau i ddatblygu gwaith partneriaeth gydag awdurdodau cyfagos i sicrhau bod gwasanaethau'n gynaliadwy yn y dyfodol	Mae gweithio mewn partneriaeth ag awdurdodau cyfagos a Thorfaen wedi gwella gwydnwch ac wedi lleihau dyblygu. Mae angen gwaith pellach i wreiddio'r trefniadau hyn ac i gefnogi cynaliadwyedd hirdymor
Monitro gwybodaeth am gyllidebau a grantiau yn drylwyr, a mynd i'r afael â meysydd lle mae gwariant yn uwch na'r gyllideb wrth iddynt godi	Roedd gwaith monitro cyllidebau a chomisiynu gwell yn cryfhau rheolaeth ariannol a gwerth yn y Gwasanaethau Oedolion. Fodd bynnag, mae Gwasanaethau Plant yn parhau i fod yn faes i'w ddatblygu, gydag angen am reolaeth ariannol gryfach. Mae pwysau cyllidebol o ganlyniad i alw cynyddol, heriau'r gweithlu a dibyniaeth ar gyllid grant yn parhau i fod yn heriau parhaus.
Cyflawni'r gwelliannau a argymhellwyd yn dilyn archwiliadau gan Arolygiaeth Gofal Cymru ac Archwilio Cymru	Sbardunodd argymhellion arolygu ac archwilio welliannau o ran perfformiad, diogelu ac ansawdd gwasanaethau. Mae argymhellion arolygu ac archwilio wedi cefnogi gwelliannau o ran perfformiad, diogelu ac ansawdd gwasanaethau. Mae'r argymhellion hyn yn parhau i gael eu monitro a'u hadrodd i'r tîm arwain ac yn rhan o'r broses ddemocrataidd.
Parhau i gynnal perfformiad uchel ym maes amddiffyn plant a gwasanaethau plant sy'n derbyn gofal	Cynhaliwyd perfformiad cryf ym meysydd amddiffyn plant, diogelu ac ymweliadau statudol. Roedd timau penodedig yn cryfhau goruchwyliaeth a'r broses o wneud penderfyniadau, gan sicrhau cymorth effeithiol er gwaethaf y galw cynyddol.

MEYSYDD I'W GWELLA YN 2026/27



MAES GWELLA UN

- Parhau i ganolbwyntio ar annibyniaeth ac atal.
- Parhau i wella ansawdd gwasanaethau ac arloesedd digidol
- Cefnogi gweithlu cynaliadwy a gwydn.
- Sicrhau bod gwasanaethau'n parhau i ganolbwyntio ar yr unigolyn.



MAES GWELLA DAU

- Cynyddu mynediad at gymorth cynnar, asesiadau gofalwyr a thechnoleg gynorthwyol.
- Gwella canlyniadau diogelu wrth gyflawni'r ymrwymiadau a nodir yn y Strategaeth Rhianta Corfforaethol
- Cryfhau trefniadau comisiynu a darpariaeth gofal lleol.



MAES GWELLA TRI

- Ehangu rôl y cydlynwyr timau amlddisgyblaethol i ragor o bractisau meddygon teulu er mwyn gwella gofal cydgysylltiedig.
- Cryfhau rhannu data rhanbarthol i gefnogi cynllunio a chynaliadwyedd gwasanaethau.
- Cynyddu cyfranogiad cymunedol wrth ddylunio a darparu gwasanaethau ataliol, gan gefnogi cymunedau i ddarparu'r cymorth cyffredinol priodol i'w trigolion.



MAES GWELLA PEDWAR

- Parhau i wella'r systemau a'r prosesau sydd ar waith i gefnogi plant a theuluoedd.
- Gwella llwybrau cymorth cynnar a chymorth i deuluoedd er mwyn atal anghenion rhag gwaethygu.
- Datblygu ymhellach gyfleoedd ar gyfer gofal seibiant a threfniadau cysylltu bywydau drwy gomisiynu gwasanaethau a chreu partneriaethau cymunedol.

GWYBODAETH BELLACH

AROLYGIADAU AC ADOLYGIADAU

Mae cysylltiadau agos ag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ac Archwilio Cymru wedi parhau yn ystod 25/26.

Yn ystod y flwyddyn, derbyniodd Gwasanaethau Oedolion a Phlant Blaenau Gwent yr adroddiadau canlynol gan Archwilio Cymru:

Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent – Adroddiad Dilynol ar Drefniadau Diogelu Corfforaethol **link**

Yn ystod y flwyddyn, derbyniodd Gwasanaethau Oedolion a Phlant Blaenau Gwent yr adroddiadau canlynol gan Arolygiaeth Gofal Cymru:

LLythyr Archwiliad Gwelliant Awdurdod Lleol – Gwasanaethau Oedolion Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent **link**

IAdroddiad Arolygu: Gwasanaeth Mabwysiadu De-ddwyrain Cymru **link**

Adroddiad Arolygu: Tŷ Augusta **link**

Adroddiad Arolygu: Cwrt Mytton **link**

Mae cynnydd yn dilyn argymhellion o arolygiadau yn parhau i gael ei fonitro yng nghynlluniau gwasanaeth y cyngor a'i adrodd drwy'r broses ddemocrataidd.

Mae cynnydd yn dilyn argymhellion o arolygiadau yn parhau i gael ei fonitro yng nghynlluniau gwasanaeth y cyngor a'i adrodd drwy'r broses ddemocrataidd.

link

link

GWYBODAETH BELLACH

CWYNION A SYLWADAU

WEr ein bod yn anelu at ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel, rydym yn cydnabod y gall pethau fynd o'u lle weithiau ac efallai na fydd ein gwasanaeth bob amser yn bodloni'r safonau y mae pobl yn eu disgwyl. Mae gan y cyngor system gadarn ar gyfer cofnodi ac ymdrin â chwynion, a sicrhau eu bod yn cael eu rheoli'n briodol fel y gellir dysgu gwersi clir a gwneud gwelliannau.

TMae'r tabl isod yn crynhoi nifer y cwynion a dderbyniwyd gan Wasanaethau Plant ac Oedolion yn ystod 2025/26. Mae'r tabl yn dangos nifer y cwynion a gafodd eu cau yng Ngham 1 a Cham 2 o'r weithdrefn gwyno ac yn nodi faint ohonynt a gafodd eu cau o fewn yr amserlen. Derbyniwyd 19 o gwynion yn ystod 2025/26 a chafodd chwe ohonynt eu cadarnhau. Cafodd y gweddill o'r cwynion naill ai eu trosglwyddo o 2024/25 neu arhosasant ar agor ar ddiwedd y flwyddyn, ac felly cawsant eu trosglwyddo i 2026/27..

ADRAN	NIFER Y CWYNION A DDERBYNIWYD	WEDI'U CAU YNG NGHAM 1	WEDI'U CAU YNG NGHAM 2	NIFER Y CWYNION A GAFODD EU CAU O FEWN YR AMSERLEN
Gwasanaethau Plant	15	4	15	4
Gwasanaethau Oedolion	4	3	0	3

CYFEIRIO AT FFYNONELLAU GWYBODAETH ERAILL

- Corporate plan
- Adults, Communities and Well-being Democratic meetings
- Children, Young People and Families Democratic Meetings
- Gwent Regional Partnership Board
- Care Inspectorate Wales
- Audit Wales

Cyngor Bwrdeistref Sirol
Blaenau Gwent
County Borough Council

www.blaenau-gwent.gov.uk